# Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**SFM(3)-02-10 Papur 2 - 7 Rhagfyr 2011**

## Papur Tystiolaeth - Cyflawni Ymrwymiadau Cymru’n Un

Mae’r Pwyllgor wedi gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig o’m cynlluniau ar gyfer parhau i weithredu Cytundeb Cymru’n Un.

Ers llunio’r cytundeb ym mis Mehefin 2007 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth gyflawni ei rhaglen. Mae dros 70% o ymrwymiadau Cymru’n Un wedi’u cyflawni’n barod.

Yr wyf i, fel fy nghyd-Aelodau, yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddal ati i weithredu Cytundeb Cymru’n Un. Yr wyf yn falch o’n cyflawniadau hyd yma. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

Mae’r Bwrdd a’r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd yn hyrwyddo ymateb cydlynus ac ar y cyd gan bartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu gwella a sicrhau’r gwerth gorau am arian i bobl yng Nghymru;

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi rhagori ar ei tharged o ddarparu 6,500 o dai fforddiadwy newydd yn ystod cyfnod y llywodraeth hon, flwyddyn ymlaen llaw. Erbyn mis Mawrth 2010, hynny yw mewn cyfnod o dair blynedd yn unig, darparwyd cyfanswm o 6,707 o dai fforddiadwy.

Cafwyd cynnydd cyson o ran gwella triniaeth i’r 800,000 o bobl yng Nghymru sy’n dioddef o salwch cronig. Yn fwyaf arbennig, mae’r niferoedd o dderbyniadau meddygol brys oherwydd diabetes, clefyd coronaidd y galon a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint wedi gostwng yn sylweddol;

"Mae Cynllun Gwên, "rhaglen iechyd y geg a anelir at bobl ifanc, wedi’i hymestyn i bob rhan o Gymru yn dilyn dau gynllun peilot uwch llwyddiannus;

Cymorth i weithwyr, help i gyflenwyr, bwrw ymlaen â rhaglenni buddsoddi cyfalaf, rhaglen ProAct newydd, mwy o arian i’n cynllun ReAct, buddsoddiad i wella sgiliau a mwy o gymorth ariannol i helpu cwmnïau;

Cymru yw un o wledydd cyntaf y DU i gyflwyno deddfwriaeth newydd i atgyfnerthu ein camau gweithredu i fynd i’r afael â thlodi plant.

Mae o leiaf 36,000 o bensiynwyr wedi elwa o’r cymorth ychwanegol gyda’u biliau treth gyngor.

Gweithredir y cynllun nofio am ddim ar draws pob un o’r 22 awdurdod lleol, gan gynnig sesiynau nofio am ddim a gweithgareddau eraill mewn canolfannau hamdden i blant 16 oed ac iau ar benwythnosau yn ogystal ag yn ystod gwyliau’r ysgol. Lansiwyd cynllun newydd ar 8fed Mehefin 2010 gan ymestyn mynediad i blant, ac mae hwnnw ar waith ar hyn o bryd.

Mae diweddariad Medi 2010 o Gynllun Cyflenwi Cymru’n Un yn nodi manylion y cynnydd a wnaethpwyd ar bob un o ymrwymiadau Cymru’n Un hyd at y dyddiad hwnnw. Mae’r Atodiad sydd ynghlwm yn rhoi gwybodaeth ychwanegol – fesul Adran - ar ymrwymiadau unigol.

**Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**

### ATODIAD A: DIWEDDARIAD/EDRYCH YMLAEN

### Adran y Prif Weinidog

Ymrwymiad 1 - Cyflwynodd **Confensiwn Cymru Gyfan** ei adroddiad yn brydlon ym mis Tachwedd 2009. Yr ydym yn parhau i fod ar y ffordd i gyflawni’r ymrwymiad i symud ymlaen tuag at ganlyniad llwyddiannus mewn refferendwm ar bwerau deddfu llawn o dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Cafodd y gorchymyn refferendwm drafft, sy’n cynnwys y cwestiwn a’r dyddiad (03 Mawrth 2011) ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol (09 Tachwedd 2010) a chan Dy’r Cyffredin (24 Tachwedd 2010) a Thy’r Arglwyddi (25 Tachwedd 2010). Y cam nesaf yn awr yw i Ei Mawrhydi y Frenhines wneud gorchymyn refferendwm drafft mewn Cyfrin Gyngor ar 15 Rhagfyr 2010.

Ymrwymiad 2 Cyhoeddodd y **Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid** ei ail adroddiad "Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru" ym mis Gorffennaf. Mewn trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2010, cafwyd cymeradwyaeth drawsbleidiol unfrydol dros gynnig i gadarnhau argymhellion y Comisiwn ar gyfer sicrhau trefn decach o ariannu ar gyfer Cymru, gan gynnwys cyflwyno, trwy ychwanegu at y fformiwla Barnett presennol, arian gwaelodol ac, yn sgil hynny, diwygiad ehangach o’r fformiwla.

### Gwelliannau i Wasanaethau Cyhoeddus

Ymrwymiad 3 -" "**Y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesedd** – Cyhoeddwyd Datganiad gan y Cabinet ar wasanaethau cyhoeddus ’Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: Y Cyfnod Nesaf o Wella Gwasanaethau Cyhoeddus’ ym mis Rhagfyr 2009. Ynddo, gosodwyd allan y bwriad i gynnal Uwch-gynadleddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i sefydlu rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd, ac awgrymwyd y byddai gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol rôl bwysig i’w chwarae yn y cyfnod nesaf o welliannau i wasanaethau

cyhoeddus. Mae'r Uwch-gynadleddau, sydd ar ffurf Uwch-gynadleddau Economaidd Cymru, yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol at ei gilydd i drafod materion sy'n gyffredin iddynt, er mwyn datblygu ymateb o safbwynt y gwasanaethau cymdeithasol yn gyffredinol i sialensiau ariannol a sialensiau sy'n wynebu'r sector.

Yn yr Uwch-gynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus cyntaf, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru sefydlu'n ffurfiol y Bwrdd a'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus o lywodraeth leol, y trydydd sector, GIG Cymru a phartneriaid cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo gwaith y rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd a'i rôl yw hwyluso a galluogi gwasanaeth cyhoeddus mwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy yng Nghymru. Mae gan y rhaglen nifer o ffrydiau gwaith sy'n cynnwys caffael cydweithredol, gwell rheolaeth dros asedion a TGCh yn y sector cyhoeddus. Trwy ffrydiau gwaith 'Trawsnewid Busnes' a 'Modelau Newydd o Ddarparu Gwasanaethau', mae'r rhaglen hefyd yn cynnig fforwm lle gall arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ddatblygu dulliau cyffredin o drawsnewid busnes (megis gwneud defnydd ehangach o dechnegau busnes LEAN) ac i ystyried ffyrdd arloesol posibl o gynllunio a darparu gwasanaethau mewn meysydd fel teuluoedd a byw'n annibynnol. Mae gwaith ar y gweill hefyd i arfogi gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus i ymdrin â'r sialensiau ariannol a'r sialensiau a fydd yn eu hwynebu yn y gweithle drwy ddulliau mwy hyblyg o symud staff ar draws sefydliadau a chefnogi arweinwyr a rheolwyr canol i reoli newid.

Mae Uwch-gynadleddau Gwasanaethau Cyhoeddus dilynol wedi bod yn canolbwyntio ar sectorau penodol, gydag uwch-gynhadledd mis Gorffennaf yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol integredig a'r drydedd uwch-gynhadledd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd yn edrych ar yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen ym maes addysg.

**Cronfa Buddsoddi i Arbed –** Cyflwynwyd cronfa newydd ym mis Mai 2009 i gynorthwyo gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn y ddau rownd cyntaf, buddsoddwyd oddeutu £26 miliwn mewn 38 o brosiectau. Er enghraifft, yn sgil dulliau newydd o weithio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n defnyddio technoleg symudol i Nyrsys Ardal ac Ymwelwyr Iechyd, ceir manteision o ran gofal i gleifion ac arbedion effeithlonrwydd. Ymhellach, cafwyd cyhoeddiad diweddar yn ymwneud â buddsoddi £9miliwn yn y Rhaglen Gofal i Bobl Fregus yng Ngwent a fydd yn cyfoethogi gwasanaethau cyhoeddus i bobl sy'n agored i niwed, gan eu galluogi i fyw'n annibynnol; darparu gofal yn y cartref neu'n agos ato ac osgoi derbyn pobl i'r ysbyty yn ddiangen; a darparu arbedion effeithlonrwydd o oddeutu £1 miliwn y flwyddyn. Bydd cyfeiriad y gronfa at y dyfodol yn cael ei lywio tuag at yr agenda Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

Ymrwymiad 6 - Mae **Byrddau Gwasanaethau Lleol** wedi'u sefydlu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Maent yn darparu'r arweinyddiaeth Tîm Cymru, gydweithredol a argymhellwyd yn Adolygiad Beecham, ac yn arwain ar dros 90 o brosiectau cyflawni gan gynnwys:

Ailgynllunio gwasanaethau i ddioddefwyr trais yn y cartref, yn dilyn cynllun 'Brigâd Kafka' i ddynodi methiannau mewn gwasanaethau o safbwynt y dinesydd (RCT a Merthyr);

Trawsnewid rheoli cymdogaethau (Caerdydd) – gan greu timau aml-asiantaethol sy'n gweithio'n glòs gyda dinasyddion i ddatrys ac atal problemau, cyflawni gostyngiadau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol (mae Byrddau Gwasanaethau Lleol Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent yn addasu'r dull hwn o weithredu);

Integreiddio gwasanaethau i bobl y mae angen gofal hirdymor arnynt (Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd) – gan arwain at lai o oedi wrth drosglwyddo gofal;

Gwella cymorth a chyfleoedd i bobl ifanc (Abertawe) – lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;

Cyd-reoli asedion ar draws gwasanaethau cyhoeddus (Sir Fynwy, Conwy a Sir Ddinbych)

Lleihau allyriadau carbon (Gwynedd, Sir Gaerfyrddin, Powys, Sir Fynwy).

Bydd prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Lleol Blaenoriaeth 4 ESF (Creu'r Cysylltiadau) yn darparu sylfaen gyllido i hwn ac mae, erbyn hyn, yn gynllun busnes datblygedig. Yn amodol ar gytundeb WEFO, bydd y prosiect yn darparu mynediad i gyllid o hyd at £13m ar gyfer prosiectau newid. Ymysg yr enghreifftiau o'r prosiectau sy'n cael eu datblygu, mae tîm o amgylch y teulu (Abertawe) a chymorth i deuluoedd cymhleth (Pen-y-bont ar Ogwr).

Ymrwymiad 46 - Yr oedd y cynigion a ddaeth ger bron gan grwpiau ardal y **Cynllun Gofodol** ar gyfer ail gyfran y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol wedi cyfrannu at ddyraniad o £118.3m ar gyfer prosiectau sector cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn arwain prosiect buddsoddi mewn seilwaith strategol i'r Cabinet, sy'n dod â chynlluniau gwariant cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru at ei gilydd, er mwyn gwella cynllunio cyfalaf, a datblygu opsiynau ar gyfer Cynllun Seilwaith Strategol i Gymru. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu dan Gynllun Gofodol Cymru wedi cael eu rhesymoli a'u cysoni drwy uno Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin a Hafan Sir Benfro o safbwynt gweinyddol o dan un Gweinidog. Mae trefniant cyffelyb wedi'i gytuno ar gyfer y ddwy ardal yng Ngogledd Cymru.

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ymrwymiad 19 (Nyrs Ysgol)

Bydd gan bob ysgol uwchradd nyrs benodedig, gyda man lle gall weithio ohono yn yr ysgol, erbyn diwedd tymor y Cynulliad.

Ymrwymiad 22 ac Ymrwymiad 23 (Iechyd Meddwl)

Mae cynlluniau cyfalaf i foderneiddio'r gwasanaeth iechyd meddwl ar waith yng Nghaerdydd a'r Fro, Wrecsam Maelor, Abertawe a Bryn y Neuadd.

Darperir cyfarwyddyd a chyngor i weithredu'r Cynllun Gweithredu drwy Grwp Sicrhau Cyflawni'r Cynllun Gweithredu.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) ac mae'n disgwyl i gael ei gymeradwyo yn y Cyngor (ym mis Rhagfyr yn ôl pob disgwyl)

Ymrwymiad 26 (Iechyd y Cyhoedd)

Yr ydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £190m mewn iechyd y cyhoedd a gwella iechyd.

Mae'r arian sydd ar gael ar gyfer blynyddoedd 2008-09 i 2011-12 yn cynnwys amrediad o raglenni gyda'r nod o wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau.

Fel rhan o "Ein Dyfodol Iach" (y Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd), byddwn yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol. Mae Strategaeth Rheoli Tybaco wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ac yn cael ei hystyried gan y Gweinidog dros Iechyd.

Ymrwymiad 40 (Gwasanaethau Gofal Cartref)

Mae rheoliadau wrthi'n cael eu datblygu, a fydd yn destun ymgynghori cyn bo hir er mwyn gweithredu, o fis Ebrill 2011, y cam cyntaf o gyflwyno mwy o gysondeb yn y modd y mae awdurdodau lleol yn codi am wasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn rhai preswyl. Gwneir y rhain o dan ddarpariaethau Mesur Codi Ffïoedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010.

## Economi a Thrafnidiaeth

Ymrwymiad 45 - **Gweithredu strategaeth marchnad lafur gyda nod tymor hir o gyflogaeth lawr ar gyfradd o 80%** - Yn dilyn llwyddiant cynlluniau ProAct a React mae'r cynnig Tri Mis, sy'n darparu cymorth hunangyflogaeth a busnes i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith ers 3 mis neu ragor, yn parhau.

Ymrwymiad 52 - **Edrych ar opsiynau ar gyfer cytundeb sector cyhoeddus ag EIB** – Bydd prosiectau JEREMIE a JESSICA yn parhau i ddatblygu ac yn darparu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig a datblygu trefol. Yn dilyn cytundeb JEREMIE a sicrhaodd gronfa fuddsoddi gwerth £150m i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, mae disgwyl i Gronfa Datblygu Trefol JESSICA ddarparu cronfa o £100m i gefnogi prosiectau datblygu trefol.

Ymrwymiad 55 - Lansiwyd y **Gronfa Fuddsoddi Sengl ar gyfer Cymorth Busnes,** gan gynnwys darpariaeth ar gyfer menter gymdeithasol a chymelldaliadau amgylcheddol, ym mis Ebrill 2008 ac, yn dilyn hynny, cafodd ei ymestyn i gynnwys prosiectau ychwanegol yn dilyn cymeradwyaethau llwyddiannus gan WEFO. Mae'r SIF wedi cael ei ddisodli gan Bolisi Adnewyddu'r Economi ond bydd yn parhau i gefnogi cytundebau sydd eisoes ar waith.

Ymrwymiad 62 - **Creu a datblygu cysylltiadau rhwng addysg ac entrepreneuriaeth** - Lansiwyd Cynllun Gweithredu y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid ar gyfer 2010-2015, i weithredu ar gamau at y dyfodol i gefnogi'r ymrwymiad yn Cymru'n Un, ar 15$^{fed}$ Tachwedd. Mae'r Modelau rôl Dynamo yn parhau i gael eu cyflwyno fesul cam – hyd at fis Medi 2010, gwnaed cyflwyniadau i dros 43000 o fyfyrwyr.

Ymrwymiad 87/88/94 - Y **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (CTC)** yw cynllun pum mlynedd y Llywodraeth, a fydd yn rhoi fframwaith a fydd yn sail i gyflawni holl ymrwymiadau trafnidiaeth Cymru'n Un. Mae'r rhaglen uchelgeisiol a osodwyd allan yn y CTC yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o gynlluniau sy'n ein rhoi ar y trywydd i sicrhau system drafnidiaeth wedi'i datgarboneiddio, gan gynnwys gwelliannau i'r seilwaith, gwella'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus a mesurau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau newid mewn ymddygiad. Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn cynnwys buddsoddi mewn trefi teithio cynaliadwy a chyfnewidfeydd aml-foddol, gwella cyfleoedd i gerdded a seiclo, integreiddio gwahanol foddau o deithio, a gwneud y gorau o'r rhwydweithiau ffordd presennol drwy ddefnyddio dulliau arloesol megis lonydd ar gyfer cerbydau â sawl teithiwr, cyfyngiadau cyflymder amrywiol a lonydd sy'n rhoi blaenoriaeth i gludiant cyhoeddus.

Ymrwymiad 93/94 - Mae'r **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol** yn cynnwys nifer sylweddol o gynlluniau ffordd ar hyd ein coridorau strategol yng Nghymru, ac yr ydym yn mynd y tu hwnt i'n hymrwymiad i ddarparu £50m i wella'r cysylltiadau ffordd rhwng y Gogledd, y Gorllewin a'r De. Mae cynlluniau sylweddol ar y gweill – cyhoeddwyd gorchmynion drafft yr A470 Gelligemlyn a Maes yr Hemau i 'Cross Foxes'. Mae'r gorchmynion drafft ar gyfer yr A470 Alltmawr wedi'u hamserlennu ar gyfer Hydref 2010. Mae'r gwaith adeiladu ei hun wedi'i amserlennu i ddechrau yn 2011-12.

Ymrwymiad 90/91/100 - Yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un ar gyfer y rheilffyrdd drwy gyflwyno **trenau a gwasanaethau** newydd, megis agor Lein Glynebwy, gwasanaethau ychwanegol ar Lein Merthyr, a lansio'r Gerallt Gymro. Mae nifer o gynlluniau wedi'u gosod allan yn y CTC, megis gwelliannau i'r seilwaith i roi sylw i fannau cyfyng rhwng Wrecsam a Chaer ac ar hyd lein Calon Cymru, a fydd yn ein galluogi i gynyddu amledd a chyflymder gwasanaethau. Byddwn yn parhau i gydweithio'n glòs â Llywodraeth y DU, Network Rail, cwmnïau gweithredu trenau ac eraill i gyflawni gwelliannau i'r system reilffordd yng Nghymru. Er enghraifft, yr ydym yn darparu £1m y flwyddyn am y tair blynedd nesaf ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol i wella Gorsafoedd i sicrhau gwell cyfleusterau, a fydd yn gymorth i gyflawni ein hymrwymiad i wella diogelwch ac ansawdd gorsafoedd a phlatfformau.

Ymrwymiad 99 - Cafwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010 ym mis Ebrill 2010. Ceir Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011, yn ôl pob golwg, cyn mis Mai 2011.

Wrth hyrwyddo cyfraniad Cymru at brif gystadlaethau chwaraeon, gan adeiladau ar y Cwpan Ryder, mae swyddogion o'r Adran Economi

a Thrafnidiaeth yn gweithio gyda busnesau o bob cwr o Gymru i sicrhau eu bod wedi cofrestru ar wefan CompeteFor, sy'n hyrwyddo cyfleoedd yn sgil Gemau Olympaidd 2012. Hyd yma, mae 2,770 o fusnesau wedi cofrestru ar wefan 'CompeteFor'.

Ymrwymiadau 224/227 - Bydd Rhwydwaith Ewrop yng Nghymru yn parhau i gynnig cyngor a chymorth i fusnesau i hybu cydweithrediad ar draws Ewrop. Caiff gweithgareddau Busnes Rhyngwladol Cymru eu hymgorffori yn y dull sector drwy Bolisi Adnewyddu'r Economi a byddant yn gweithio i sicrhau y bydd mewnfuddsoddi yn parhau.

### Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol

Ymrwymiad 53 -" "Yn sgil agor y swyddfa newydd yng Nghyffordd Llandudno ym mis Medi 2010, mae'r ymrwymiad yn Cymru'n Un i **adleoli** is-adrannau'r Cynulliad i Ogledd Cymru, Gorllewin Cymru a Chymoedd y De wedi'i gyflawni  Mae'r tair swyddfa newydd wedi dod â gwasanaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nes at bobl Cymru, wedi rhoi gwell amgylchedd gwaith i'n staff, wedi gwella hygyrchedd a chysylltiadau i aelodau'r cyhoedd ac wedi hybu twf economaidd yn yr ardaloedd y lleolir y swyddfeydd newydd ynddynt.

### Cyllid

Ymrwymiad 54 - Yr ydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella **trefniadau caffael y sector cyhoeddus** i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl o'r arian a wariwn. Yr ydym wedi cyflawni cynnydd sylweddol wrth safoni a symleiddio'r broses gyn-gymhwyso ar gyfer tendro a byddwn yn cyflwyno Cronfa Ddata o Gymhwysedd Cyflenwyr yn y flwyddyn newydd. Mae rhaglen o hyfforddiant i brynwyr yn y sector cyhoeddus wedi hen ddechrau, gyda gweithdai'n cael eu cynnal ledled Cymru. Bydd y dull newydd hwn o weithio yn gwella effeithlonrwydd ac yn arwain at fwy o gystadlu ac yn lleihau'r baich bwirocrataidd ar fusnesau bach a chanolig.

Yr ydym yn monitro'r cynnydd. Er enghraifft, yng nghyswllt hysbysiadau dyfarnu contractau'r UE ar gyfer contractau adeiladu, o'r 21 contract neu fframwaith a sefydlwyd rhwng Ionawr ac Awst eleni, mae busnesau o Gymru wedi llwyddo i sicrhau dyfarniadau o 12 o'r caffaeliadau hyn. Yn hanesyddol, mae'r dulliau o ddethol cyflenwyr wedi milwrio yn erbyn ein busnesau cynhenid, ac mae'r ymdrech sy'n mynd i mewn i ddarparu cyngor, arweiniad ac adnoddau i wella'r broses hon, yn ôl pob golwg, yn cyflawni cynnydd.

Ymrwymiad 64 - Yr ydym wedi datblygu dull o **ddarparu hyfforddiant i bobl ddi-waith o gaffael sector cyhoeddus** ac wedi cyhoeddi astudiaethau achos ac enghreifftiau sy'n dangos sut y gellir hybu 'buddiannau cymunedol' yn gyfreithlon o fewn y fframwaith polisi a chyfreithiol sy'n llywodraethu caffael sector cyhoeddus.

Yr ydym yn gweithio'n glòs gyda'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach ar raglen o brosiectau sy'n mabwysiadu'r dull newydd ac yn gweld manteision. Er enghraifft, Ffordd Ddosbarthu'r Cyrion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot. Caiff y prosiect hwn ei ystyried yn un o gatalyddion hanfodol adfywio a ffyniant economaidd yr ardal. Rhoddwyd contract Ymwneud Cynnar gan Gontractwr (ECI) i grwp adeiladu Costain a dechreuodd y gwaith ym mis Ebrill 2010 i gyrraedd targed o 70 o gyfleoedd i hyfforddeion NVQ Lefel 2 neu gyfatebol.

**APADGOS**

### Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ymrwymiad 65 - Mae dysgu Undebau Llafur wedi'i gryfhau yn sgil cytundeb tair blynedd newydd gyda TUC Cymru i ddatblygu a darparu gwasanaethau gan gynrychiolwyr dysgu undebau. Mae cyllideb **Cronfa Ddysgu Undebau Cymru** wedi'i chynyddu i £1.5m yn 2010-11. Cafwyd cytundeb ar y gyfran nesaf o brosiectau 3 blynedd yn unol ag argymhelliad Estyn.

Ymrwymiad 101 - Sefydlwyd **Llwybrau Dysgu 14-19** newydd i gynyddu'r cyfleoedd galwedigaethol ac academaidd sydd ar gael i bobl ifanc ac mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn parhau i ymledu gyda dros 200 o ganolfannau ac oddeutu 53000 o ddysgwyr ar lefelau uwch, canolraddol a sylfaen yn 2010.

Ymrwymiad 102/103/105 - Lansiwyd y **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** yn 2010 wedi'i hategu gan raglen fanwl ar gyfer ei gweithredu a fydd yn sicrhau dull mwy cydlynus o **asesu ac ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.** Ynghyd â hyn, ceir cynigion datblygedig i sefydlu rhwydwaith addysg uwch cyfrwng Cymraeg, **Coleg Ffederal.**

Ymrwymiad 111 "– "Cafodd y **Cyfnod Sylfaen** ei ymestyn i gynnwys plant 4-6 oed yn 2010, ac erbyn 2011 bydd bob plentyn rhwng 3 a 7 oed yn elwa o'r dull newydd hwn o ddysgu a'r gostyngiadau sylweddol ym maint dosbarthiadau a ddaw yn ei sgil drwy gynyddu cymarebau oedolyn-disgybl.

Ymrwymiad 112 & 115/116 - Mae Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif yn ehangach nac adeiladau ysgol: mae'n cynnwys prif ffrydio **ysgolion bro** o fewn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion; gwell darpariaeth ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Ymrwymiad 113 - Mae'r Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif wedi helpu i wella **adeiladau ysgol** fel rhan o raglen fuddsoddi sylweddol a fydd yn gweld darpariaeth o £747.8m yn ystod oes y Cynulliad. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys £632m (i gynnwys Cyllid Cyfalaf Cyffredinol, grant gwella Adeiladau Ysgol, grant ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, a grant cyfalaf Blynyddoedd Cynnar), £34.093m ar gyfer 2 brosiect PFI ac arian SCIF o £81.3m.

Ymrwymiad 114 - Rhaglen o fuddsoddi mewn **adeiladau ysgol** cynaliadwy: Un o amodau'r grant yw ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni BREEAM 'Rhagorol' neu gyfatebol ar gyfer pob adeilad ysgol newydd sbon ac estyniadau annibynnol a dderbyniodd gymorth dan y Grant Gwella Adeiladau Ysgol.

Ymrwymiad 118 - Mae'r **Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb** wedi'i gwblhau, ac mae cynllun gweithredu newydd

ar waith. Cyhoeddwyd Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru ym mis Mawrth 2009. Mae'r cynllun hwn yn nodi dull strategol o weithredu er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS).

Ymrwymiad 119 - Mae cymorth wedi parhau, drwy gydol y cyfnod, i **Frecwast Am Ddim mewn Ysgolion.** Ymrwymodd 67% o ysgolion cynradd i roi cyfle i'w disgyblion fwynhau brecwast iach yn yr ysgol bob dydd.

Ymrwymiad 126 - Cedwir golwg ar yr effaith a gaiff niferoedd cynyddol o blant **gweithwyr mudol** ar ysgolion. Darperir cymorth i addysgu plant gweithwyr mudol drwy'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael (Medi 2009) yn dangos cynnydd o 40% yn nifer plant gweithwyr mudol ers mis Medi 2008. Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bob un o'r argymhellion yn adolygiad Estyn o'r effaith ar awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009.

Ymrwymiad 127 - Mae'r broses o **ddiwygio cyllid myfyrwyr** wedi sicrhau bod myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn parhau i dderbyn cymorth grant ar gyfer costau byw sy'n cymharu â'r lefel yn Lloegr tra'n darparu cymorth ychwanegol drwy roi cyfle iddynt ddileu rhan o'u dyled o hyd at £1,500 pan maent yn dechrau ad-dalu eu benthyciad cynhaliaeth.

Ymrwymiad 128 - Mae datblygu sgiliau, gan gynnwys **prentisiaethau,** yn un o brif flaenoriaethau'r adran. Bydd y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau, a sefydlwyd yn 2009, yn parhau i ddenu arian o Ewrop ac mae'n edrych yn debyg y bydd yn cyrraedd ei darged o gyflawni oddeutu 2000 o lefydd ychwanegol i bobl ifanc. Mae ansawdd y prentisiaethau a ddarparwyd drwy'r rhaglenni hyn wedi parhau i wella.

Ymrwymiad 129 - Mae'r gwaith o weithredu ar argymhellion perthnasol **adroddiad Webb** yn parhau, ac yn cael ei fonitro drwy Gynllun Gweithredu "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru". Ymdrinnir ag elfennau allweddol o argymhellion Webb drwy'r prosiectau Trawsnewid a gwaith ar Raddau Sylfaen. Gweithredir y gwaith o gyflawni Graddau Sylfaen yn fframwaith cynllunio rhanbarthol CCAUC.

Ymrwymiad 130 -" "Mae" Er Mwyn ein Dyfodol, "strategaeth a chynllun ar gyfer addysg uwch yn blaenoriaethu mesurau i fynd i'r afael ag **ehangu cyfranogiad** ac i atgyfnerthu'r ymchwil sy'n cefnogi'r gwaith o adnewyddu'r economi.

Ymrwymiad 132 - Sefydlwyd **y Gronfa Gwasanaethau Ieuenctid** i ddosbarthu cymorth grant Cyfalaf a Refeniw i gynorthwyo'r Gwasanaeth Ieuenctid i gyflawni cynllun gweithredu a nodau strategol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru. Ymysg yr enghreifftiau o gymorth Cyfalaf, ceir canolfannau ieuenctid addas i'r pwrpas, gyda chyfleusterau sy'n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Tra bo cymorth Refeniw yn cynnwys Siopau Gwybodaeth, Rhaglenni Haf a drefnwyd mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid eraill.

Ymrwymiad 153 - Lansiwyd **Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru** ym mis Tachwedd 2009. Yn 2009-10 targedai'r cynllun blant a aned rhwng 1 Medi 2002 a 31 Awst 2004 gan roi £50 i bob plentyn, gyda thaliad o £100 i'r plant hynny a oedd yn byw mewn cartrefi incwm isel.

Ymrwymiad 155 - Yn ogystal, sefydlwyd Grwp Arbenigol ar Dlodi Plant dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog dros Blant, er mwyn gweithredu ar y gofynion polisi sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targedau a osodwyd allan yn '**Dileu Tlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant',** gan gynnwys argymhellion ynghylch addysg 4-14 mlwydd oed, 14-19 oed, anweithgarwch economaidd a thlodi mewn gwaith.

Ymrwymiad 162 - Caiff ein hymrwymiad i **gyfiawnder ieuenctid** ei gyflawni drwy Gynllun Gweithredu Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan. Cafodd y cynllun ei adnewyddu ar gyfer 2009-11 ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar ymyriadau ataliol.

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Ymrwymiad 56 - Ar 8 Medi 2010, hysbysodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Aelodau'r Cynulliad o'r cynyddiadau mewn **rhyddhad ardrethi busnes** a fydd yn golygu y bydd y rhan fwyaf o fusnesau Cymru yn talu llawer llai o ardrethi, neu ddim ardrethi o gwbl, am 12 mis o 1 Hydref 2010. Mae'r cyhoeddiad diweddaraf hwn yn golygu na fydd oddeutu hanner y busnesau bach yng Nghymru yn talu ardrethi busnes am y flwyddyn o 1 Hydref 2010 ymlaen a bydd oddeutu 20% arall yn gweld gostyngiad sylweddol yn eu hardrethi busnes. Mae rhan fwyaf y safleoedd busnes yng Nghymru yn dod o fewn y trothwyon ar gyfer rhyddhad o 25% neu 50%. Gallai'r rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnesau bach neu ryddhad arall megis ar gyfer eiddo gwag neu i elusen. Mae hyn yn ychwanegol at y gostyngiadau mewn biliau ardrethi a dderbyniodd dros 60% o fusnesau yng Nghymru o 1 Ebrill 2010 yn dilyn ailbrisio ardrethi busnes.

Ymrwymiad 138 - Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gyflawni yn sgil datblygu'r **Strategaeth** genedlaethol gyntaf **ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr** yn y DU. Bydd y strategaeth ar ei ffurf derfynol erbyn diwedd 2010. Yn ogystal â chynnwys ystyriaethau llety, mae hefyd yn cynnwys iechyd, addysg, cynllunio, cyfranogaeth ac ymgysylltiad. Mae'r Strategaeth yn cael ei datblygu trwy gydweithrediad â'r awdurdodau lleol, partneriaid o'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru gan gynnwys Gwasanaethau Addysg i Deithwyr, asiantaethau statudol megis yr Heddluoedd, a chymunedau o Sipsiwn a Theithwyr. Yr ydym wedi sicrhau £2.5 miliwn ar gyfer dwy raglen grant cyfalaf i awdurdodau lleol yng nghyswllt safleoedd Sipsiwn-Teithwyr - rhaglen Grant Adnewyddu Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr a rhaglen Grant ar gyfer Safleoedd Newydd Sipsiwn-Teithwyr. Bwriad y ddau grant yw gwella ansawdd bywyd a safon byw i Sipsiwn a Theithwyr ym mhob cwr o Gymru.

Ymrwymiad 160 "-" Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau mynediad at undeb credyd i bob ysgol uwchradd erbyn 2011. Dan Gam 2 Rhaglen Gymorth Undebau Credyd Cymru-gyfan, mae 19 o undebau credyd yn cael cefnogaeth drwy raglen cyllido Undeb Credyd Cymru-gyfan i ddatblygu neu adeiladu ar eu gwaith mewn ysgolion uwchradd. Mae'r rhaglen adnoddau ysgolion a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef CU@theCU yn adnodd dwyieithog ar y we sydd ar gael i ysgolion ledled Cymru. Mae'n annog ysgolion i sefydlu mannau

casglu ac i ymuno ag undebau credyd lleol.

## Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Ymrwymiad 47 - **Rhaglen Blaenau'r Cymoedd** a gefnogodd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar safle'r hen waith dur yng Nglyn Ebwy, sy'n ymestyn dros 185 o aceri, gan ddenu cynulleidfaoedd newydd a newid canfyddiadau pobl o'r iaith Gymraeg ac o'r Cymoedd fel lle i fyw, gweithio ac ardal i ymweld â hi. Y 25,000 a ddaeth i'r maes ar ddydd Sul agoriadol yr Eisteddfod oedd y nifer uchaf erioed i'w mynychu.

Mae pump o Ardaloedd Adfywio ychwanegol wedi'u sefydlu ledled Cymru, yn ogystal â'r Cwmnïau Adfywio Trefol yng Nghasnewydd. Y pum ardal yw: Arfordir Gogledd Cymru, Cymoedd y Gorllewin, Abertawe, Aberystwyth a'r Bari. Mae Byrddau wedi'u sefydlu ar gyfer pob ardal bellach gan hyrwyddo dull o weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r sialensiau o fewn eu hardaloedd lleol.

Ymrwymiad 66 - Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi rhagori ar ei tharged o ddarparu 6,500 o dai fforddiadwy newydd yn ystod cyfnod y llywodraeth hon, flwyddyn ymlaen llaw. Erbyn mis Mawrth 2010, hynny yw mewn cyfnod o dair blynedd yn unig, darparwyd cyfanswm o 6,707 o dai fforddiadwy.

Ymrwymiad 67 - Cymeradwywyd **Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Tai a Llywodraeth Leol** gan Ei Mawrhydi mewn Cyngor ar 21 Gorffennaf 2010. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd mesur arfaethedig gan Brif Weinidog Cymru ym mis Gorffennaf 2010 i'w gynnwys yn Rhaglen Ddeddfwriaethol 2010/11**.** O'i gymeradwyo bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu awdurdodau lleol i gyflwyno cais i atal yr Hawl i Brynu mewn mannau lle mae pwysau ar Dai.

Ymrwymiad 77 - O ran **cynllunio defnydd tir,** yr ydym wedi sicrhau bod ein canllawiau a'n polisïau cynllunio yn cefnogi ein blaenoriaethau yn Cymru'n Un. Mae ein polisïau cynllunio tai fforddiadwy yn llwyr gefnogi ein hymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac yr ydym wedi cynhyrchu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy sy'n gosod allan y categori newydd ar gyfer anheddau mentrau cefn gwlad i gefnogi anghenion dilys busnesau yng nghefn gwlad. Mae cynllunio yn chwarae rôl allweddol wrth ein helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Yr ydym wedi cyflwyno safonau amgylcheddol gofynnol ar gyfer adeiladau newydd, gan ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni ac yr ydym, ar hyn o bryd, yn rhoi ein polisïau cynllunio ynni adnewyddadwy newydd ar eu ffurf derfynol.

"Ymrwymiad 82" - Ym mis Ebrill 2010 fe wnaethom lansio ein strategaeth dai newydd '"Gwella Bywydau a Chymunedau, Cartrefi yng Nghymru'", sy'n dwyn ynghyd strategaethau ar wahân ar ddiwallu anghenion tai, digartrefedd, a gwasanaethau cymorth mewn perthynas â thai. Mae'n gosod allan y sialensiau, y blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer blynyddoedd i ddod fel y gellir gwneud mwy i bobl, yn enwedig pobl hyn a phobl eraill a allai fod yn agored i niwed.

Ymrwymiad 166 - Yr ydym wedi ymrwymo i gyflawni gostyngiad o 40% fan lleiaf mewn allyriadau nwyon ty gwydr yng Nghymru erbyn 2020 yn erbyn gwaelodlin o 1990.

Lansiwyd **Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd** a chynlluniau cysylltiedig i Addasu a Gostwng Allyriadau ar 7 Hydref 2010. Mae Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd hefyd wedi bod yn gweithio ers 2007 i adeiladu consensws ac i arwain ar weithredu ym maes newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.

Ym mis Mai 2010 lansiodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio y cam cyntaf werth £30m o'r rhaglen perfformiad ynni strategol newydd **arbed.** Mae hyn yn darparu arian i wella perfformiad ynni y stoc tai mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae hefyd yn rhoi hwb i swyddi, sgiliau ac adfywio. Ystyriaeth bwysig yw fod y £30m cychwynnol hwn wedi denu buddsoddiad pellach o ffynonellau eraill fel darparwyr tai cymdeithasol a chwmnïau ynni i wella'r stoc tai a buddsoddi mewn technolegau ynni adnewyddadwy.

Ym mis Hydref 2009, fe wnaethom lansio'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel werth £34 miliwn, i hyrwyddo ymchwil sy'n torri tir newydd er mwyn creu **dyfodol carbon isel i Gymru**, i greu swyddi gwyrdd ac i helpu busnesau i ddatblygu cynnyrch a thechnolegau cynaliadwy. Mae'r rhaglen hon yn cael arian o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd Cydgyfeiriant Ewrop.

Ymrwymiad 177 - Mewn polisi **ynni,** cyhoeddwyd '**Chwyldro Carbon Isel'** ym mis Mawrth 2010 sy'n gosod allan y camau gweithredu i gyflymu'r trawsnewid i economi carbon isel yng Nghymru. Dengys y datganiad fod gan Gymru y potensial i gynhyrchu dwywaith cymaint o drydan ag y mae'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd drwy gyfrwng ffynonellau cyfan gwbl adnewyddadwy erbyn 2025, gan roi Cymru ar flaen y gad o ran harneisio ffynonellau ynni'r moroedd, gwynt, biomas cynaliadwy a micro-ynni.

Ymrwymiad 182 - Mae gennym hefyd gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer seilwaith **gwastraff** ac yr ydym yn cynorthwyo consortia gwastraff awdurdodau lleol mewn rhaglen gaffael Cymru-gyfan. Ym mis Mehefin 2010, fe wnaethom gyhoeddi ein dogfen strategaeth gwastraff trosfwaol newydd 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' sy'n canolbwyntio ar y modd y gallwn annog pobl i ddefnyddio a gwastraffu llai. Mae'n gosod targed o 70% ar gyfer ailgylchu pob math o wastraff erbyn 2025 gyda nod o fod yn wlad ddiwastraff erbyn 2050. Credwn fod ein cynllun ni gyda'r mwyaf uchelgeisiol yn Ewrop.

Ymrwymiad 182 - I gyd-fynd â hyn, yr ydym yn gweithio i gyflwyno **taliad gorfodol ar fagiau siopa untro** yng Nghymru yn 2011. Mae dros 400 miliwn o fagiau siopa untro yn cael eu rhoi allan bob blwyddyn ar hyn o bryd i siopwyr yng Nghymru ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu gadael fel sbwriel yn ein gwlad neu mewn safleoedd tirlenwi, lle maent yn rhyddhau nwyon ty gwydr niweidiol. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth ynglyn â'r mater hwn.

Ymrwymiad 182 - Hefyd, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i **Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar yr Amgylchedd,** sy'n rhoi pwerau pellgyrhaeddol dros lygredd, niwsans a gwastraff, ar y 10$^{fed}$ o Chwefror 2010 a daeth i rym ar yr 11$^{eg}$ o Chwefror 2010. Yn dilyn

hynny, pasiwyd Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Tachwedd 2010. Golyga hyn y gall Cymru weithredu targedau statudol ar gyfer cyfraddau'r gwastraff trefol a gaiff ei ailgylchu, fel y nodir yn strategaeth gwastraff Cymru Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae hefyd yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru i gyflwyno targedau gwastraff statudol eraill yn y dyfodol. Yn ôl pob golwg, Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno targedau ailgylchu statudol i awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys cyflwyno targedau cyfreithiol rwymol ar gyfer maint y gwastraff trefol y mae cynghorau yn ei ailgylchu neu'i gompostio o 2012-2013 ymlaen, gyda tharged ar gyfer 2024-2025 o 70 y cant.

Ymrwymiad 182 - Ar 15 Medi 2010 fe wnaethom lansio ymgynghoriad ar 'Cymru fyw - Fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd' sy'n gosod allan yr egwyddorion a ddefnyddiwn i newid ein dull o reoli'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod ein hamgylchedd yn parhau i fod yn iach ac yn wydn. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 31 Rhagfyr 2010 gan geisio barn am y newidiadau radical, o bosib, o ran darparu ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru.

Ymrwymiad 186 - Mae arian ychwanegol wedi'i sicrhau drwy raglen Gydyfeiriant Cronfeydd Strwythurol yr UE i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad yn Cymru'n Un i gwblhau **Llwybr Arfordirol i Gymru gyfan.** Mae sawl adran o'r llwybr ar agor i'r cyhoedd erbyn hyn, a bydd y gweddill, yn ôl pob golwg, wedi'i gwblhau yn unol â'r targed, sef cyn cynnal y Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012.

Ymrwymiad 221 - Ym mis Mehefin 2008, cyhoeddwyd mai Cymru oedd **Cenedl Fasnach Deg** gyntaf y byd. Mae'r ymgyrch wedi parhau ac mae nodau mwy ymestynnol yn cael eu datblygu ar gyfer blynyddoedd i ddod.

## Materion Gwledig

Ymrwymiad 168(i) - Mae'r cymorth i **goetiroedd cynhenid** yn parhau. Erbyn diwedd tymor plannu'r gaeaf 2009-10, yr oedd cyfanswm o 112,864 o goed wedi'u plannu. Mae trafodaethau'n parhau ar gyfer dau safle plannu arall - un yng Ngogledd Cymru ac un yn y De.

Ymrwymiad 169(i) - Cyflwynwyd **Cynllun Datblygu Gwledig** 2007-2013 ac fe'i cymeradwywyd gan Gomisiwn Ewrop yn unol ag Ymrwymiad Cymru'n Un. Mae'r Cynllun yn gosod allan y ffordd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi cefn gwlad a chymunedau gwledig - gan gynnal elfen gystadleuol amaethyddiaeth a choedwigaeth ac annog proses gynaliadwy o reoli amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Ymrwymiad 169 (ii) - Ym mis Mai 2009, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig newid yn y dull o reoli tir fferm yng Nghymru. O 2012, caiff y pedwar cynllun amaeth-amgylcheddol presennol o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig eu disodli gan un cynllun rheoli tir cynaliadwy, **Glastir**. Mae Glastir mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â'r sialensiau, yn awr ac yn y dyfodol, o ran pridd, dwr, carbon, newid yn yr hinsawdd, cynefin a bioamrywiaeth. Mae dros 15,000 o ffermwyr wedi mynegi diddordeb mewn ymgeisio i ymuno ag Elfen Cymru Gyfan Glastir. Gallent gyflwyno ffurflenni cais Glastir wedi'u cwblhau rhwng 4 Hydref a 22 Tachwedd 2010.

Ymrwymiad 169 (iii) - Yr ydym wedi gweithio'n glòs gyda rhanddeiliaid i gyflwyno cynllun grant newydd a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb oed yn y sector amaeth. Yr oedd y **Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS)** yn llawn yn ystod ei flwyddyn gyntaf - derbyniwyd 124 o geisiadau ac anfonwyd y llythyrau cytundeb cyntaf allan ym mis Mehefin 2010. Agorodd yr ail gyfnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar 18 Hydref 2010, a derbynnir mynegiant o ddiddordeb ar hyn o bryd. Mae nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus, a lefel y trosoledd sector preifat a ddaethant gyda hwy, yn dangos i ba raddau y cefnogir y cynllun hwn yn y gymuned ffermio yng Nghymru.

Ymrwymiad 170 - Yr ydym wedi ceisio mynd i'r afael â sialensiau amgylcheddol ac economaidd byd-eang drwy lansio ein Cynllun Gweithredu ar **Brynu Lleol** (Ebrill 2009). Nod y cynllun gweithredu hwn yw cynyddu lefel y bwyd a'r ddiod a brynir yn lleol yng Nghymru yn ogystal â chynyddu'r lefelau o gyflenwi bwyd lleol i sefydliadau'r sector cyhoeddus. Un weithred benodol o fewn y cynllun yw cefnogi datblygiad y "Ffocysau Bwyd "sy'n gallu dod â nifer o gynhyrchwyr bwyd a diod at ei gilydd i gyflenwi gweithgynhyrchwyr bwyd mwy. Mae dros 90% o'r cynllun gweithredu wedi'i gyflawni'n barod.

Ymrwymiad 172 - O ran **stoc trig**, er i ni fod yn aflwyddiannus yn ein cais am lacio Rheoliadau'r UE i godi'r gwaharddiad ar gladdu, yr ydym wedi llwyddo i sicrhau diwygiad y rhoes Cymru'r hwb cychwynnol iddo i'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid diwygiedig i gynnwys darpariaeth ar gyfer cadw'r stoc ar y fferm sy'n opsiwn cynaliadwy i gladdu stoc trig. Cyflawnwyd hyn drwy weithio'n glòs ag ASEau, y Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod Wladwriaethau eraill. Cyhoeddwyd y Rheoliad newydd 1069/2009 yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 14eg Tachwedd 2009 a daw i rym ym mis Chwefror 2011.

Ymrwymiad 173 – Mae'r rhaglen **Dileu TB** yn cynnwys gwyliadwriaeth gryfach a mesurau rheoli i ganfod a dileu heintiadau'n gynharach.

Yr ydym wedi gwella trefniadau gorfodi ac yr ydym yn trafod â'r diwydiant i wella arferion hwsmonaeth ar ffermydd. Mae tri Bwrdd Rhanbarthol Dileu TB yn sicrhau arweinyddiaeth gydweithredol ac ar y cyd er mwyn atal, canfod a dileu TB, mewn mannau o bwysigrwydd allweddol i'w rhanbarth.

Ar ôl ystyried dyfarniad y Llys Apêl a ddiddymodd Orchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009, ym mis Medi 2010, fe wnaethom lansio ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos ar Orchymyn drafft a fyddai'n caniatáu i ni fynd ar drywydd strategaeth rheoli moch daear mewn ardal benodedig o Orllewin Cymru.

Ymrwymiad 174 - I gyflawni ein hymrwymiad i nodi a mynd i'r afael ag anghenion penodol **ym mherfeddion cefn gwlad,** fe wnaethom gomisiynu Arsyllfa Wledig Cymru i ymgymryd ag ymchwil i brofiad pobl o fyw ym mherfeddion cefn gwlad. Canolbwyntiodd yr Adroddiad ar Ardaloedd Gwledig Anghysbell ar faterion yn ymwneud â darparu gwasanaethau o safbwynt y trigolion a'r darparwyr.

Mae'r ymchwil hon yn torri tir newydd, ac wedi datblygu ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn gan ddarparu tystiolaeth fesuradwy. Mae eisoes yn helpu i ffurfio ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i anghenion cymunedau anghysbell o ran trafnidiaeth a TGCh ac mae wedi arwain at y gwaith datblygu cyfredol ar brosiect ar y cyd â CLILC ac awdurdodau lleol i edrych ar sut y mae gwasanaethau'n cael eu caffael a'u darparu mewn ardaloedd gwledig.

Ymrwymiad 180 - Yr ydym hefyd wedi ymrwymo i hybu effeithlonrwydd ynni a **chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffermydd.** Mae gwybodaeth a chyngor yn cael eu darparu bellach i ffermwyr ar sail un-i-un drwy gyfrwng elfen Cynllun y Fferm Gyfan, Cyswllt Ffermio. Bydd Cynllun Glastir yn cynnwys mecanwaith grant cyfalaf penodol a fydd yn cynnwys effeithlonrwydd ynni ar ffermydd, gan gynnwys cynlluniau gwresogi microgynhyrchu i fusnes y fferm.

Hefyd, mae Prifysgol Bangor yn bwrw ymlaen â Rhaglen Datblygu Newid yn yr Hinsawdd newydd Cyswllt Ffermio trwy gydweithrediad ag IBERS. Mae'r Rhaglen hon yn codi ymwybyddiaeth am faterion newid yn yr hinsawdd (risgiau, cyfrifoldebau a chyfleoedd) ac yn cefnogi gwaith gyda phartneriaid i ddatblygu opsiynau ymarferol a chynaliadwy i helpu rheolwyr-tir i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhaglen yn lledaenu gwybodaeth am y manteision ymarferol ac economaidd a ddaw yn sgil defnyddio'r arfer gorau mewn effeithlonrwydd ynni ac am y gwaith o osod a defnyddio ffynonellau o ynni adnewyddadwy ar ffermydd.

## Treftadaeth

Ymrwymiad 58 -  Lansiodd **Croeso Cymru** ei ymgyrch ymwelwyr yn 2010 sef 'GWYLIAU GO IAWN' ym mis Mai. Mae'n cynnwys hysbysebion ar y teledu a chyhoeddusrwydd sylweddol ar-lein.

Ymrwymiad  59 - Hefyd mae tri o brosiectau UE Croeso Cymru wedi cael eu cymeradwyo – **Twristiaeth Gynaliadwy, Twristiaeth Arfordirol a Marchnata Digidol** - buddsoddiad o £52.4 miliwn dros bedair blynedd. Yn y maes datblygu sgiliau, mae rhaglen hyfforddi newydd 'Croeso Cynnes Cymraeg - A Warm Welsh Welcome' - wedi cael ei lansio.

Ymrwymiad 187 - Mae cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i roi erbyn hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol a chyflwynwyd **Mesur y Gymraeg (Cymru)** ym mis Mawrth 2010 ac mae wedi mynd drwy Gam 1 a Cham 2 o'r broses graffu gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2. Mae'r Mesur wedi cyrraedd Cam 3 o broses craffu'r Cynulliad ar hyn o bryd, a threfnwyd bod y drafodaeth ar y cam hwn i'w chynnal cyn diwedd y flwyddyn. Bydd y Mesur yn adeiladu ar lwyddiant Deddf Iaith Gymraeg 1993. Ein nod, wrth gyflwyno'r Mesur, oedd moderneiddio ac atgyfnerthu'r strwythur deddfwriaethol sy'n cefnogi'r iaith.

Ymrwymiad 191 - Yr ydym wedi bwrw ymlaen hefyd â'n hymdrechion i sicrhau cytundeb ar **ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol o fusnes yr UE.** Mewn symudiadau sy'n torri tir newydd, mae cytundebau ar waith erbyn hyn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, Cyngor y Gweinidogion, Pwyllgor y Rhanbarthau (CoR) a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn rhai meysydd o fusnes. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r Ombwdsmon a Senedd Ewrop.

Ymrwymiad 193 - Yn unol â'n hymrwymiad i sefydlu gwasanaeth newyddion beunyddiol yn yr iaith Gymraeg, lansiodd Cyngor Llyfrau Cymru, ar 15 Mai 2009, becyn cyllido tair blynedd ar gyfer **gwasanaeth rhyngweithiol yn y Gymraeg** i gyflwyno newyddion a materion y dydd:" Golwg 360" .

Ymrwymiad 197 - Gwnaethom fuddsoddiad sylweddol o ran datblygu cynyrchiadau **Theatr Cyfwng Saesneg** yng Nghymru drwy sefydlu cwmni Cenedlaethol newydd sbon sy'n gweithio drwy'r Saesneg – "National Theatre Wales". Mae swm o £4.5 miliwn wedi'i fuddsoddi dros y tair blynedd ariannol 2008/09, 2009/10 a 2010/11 i gynorthwyo gyda'r gwaith o sefydlu a datblygu theatr cyfrwng Saesneg.

Ymrwymiad 201 - " "Cyhoeddwyd Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ddyletswydd Diwylliannol ar 15 Mehefin 2009 ac fe'i cymeradwywyd gan Ei Mawrhydi mewn Cyfrin Gyngor ar 13 Ebrill 2010. Mae'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn archwilio'r opsiynau eraill yn hytrach na deddfwriaeth, cyn ymgynghori ar ffurf unrhyw Fesur gan y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys ystyried p'un a allai Cytundebau Canlyniadau fod yn gyfrwng addas i hyrwyddo a gwella'r ddarpariaeth ddiwylliannol.

Ymrwymiad 205 - Ym mis Gorffennaf 2008, fe wnaethom hefyd oruchwylio'r gwaith o agor **Oriel Kyffin Williams** ar Ynys Môn. Mae yno raglen ddynamig ac amrywiol o arddangosfeydd, sy'n amrywio o'i chasgliad ei hun i rai a fenthycwyd gan sefydliadau ac unigolion eraill. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Oriel, yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys gweithdai i blant a theuluoedd yn ogystal â sgyrsiau arbenigol.

Ymrwymiad 206 - Ar 2 Awst 2010, i fynd i'r afael ag un arall o'n hymrwymiadau, fe wnaethom lansio Casgliad y Werin yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Blaenau Gwent. Mae hwn yn ddull arloesol o gasglu, dehongli, dosbarthu a thrafod treftadaeth ddiwylliannol Cymru mewn amgylchedd ar-lein. Bydd gwybodaeth a hysbysrwydd am ein treftadaeth amrywiol a chyfoethog ar gael i bawb: y rhai sy'n byw yng Nghymru, ymwelwyr a darpar ymwelwyr, ar hyd a lled y byd.

Ymrwymiad 207 - Yr ydym wedi ymgymryd hefyd â rhaglen sylweddol i fuddsoddi ac i adnewyddu'r **rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus**. Buddsoddwyd £1.5 miliwn yn 2008-09 ac ariannwyd 16 o lyfrgelloedd. Clustnodwyd £3 miliwn i foderneiddio 23 o lyfrgelloedd yn 2009-10. Mae £3 miliwn pellach wedi'i glustnodi ar gyfer 2010-11 ac mae 15 o lyfrgelloedd yn cael eu hariannu, can gynnwys llyfrgelloedd mwy.

Ymrwymiadau 209/210/211 -" "Ym mis Ionawr eleni fe wnaethom lansio **"Creu Cymru Egnïol",** cynllun gweithredu gweithgarwch corfforol pum mlynedd (2010-15) newydd sydd â chysylltiad clòs â strategaeth iechyd y cyhoedd. Yr ydym wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn amrywiaeth o raglenni sydd â'r nod o hyrwyddo gweithgarwch corfforol ymysg pobl ifanc a chyrraedd ein targed tymor hir a fydd yn gweld plant yn ymgymryd ag o leiaf pum awr o weithgarwch corfforol yr wythnos.

Ymrwymiad 209 -" "Lansiwyd **cynllun nofio am ddim** newydd diwygiedig i bobl ifanc ar 8 Mehefin 2010. Mae pob awdurdod lleol ledled Cymru yn darparu'r cynllun hwn, gan gynnig gweithgareddau yn rhad ac am ddim ar benwythnosau drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn ychwanegol at yr hawl sydd eisoes yn bodoli i nofio am ddim.

Ymrwymiad 211 - Lansiwyd **Y Strategaeth Chwaraeon i'r Elît** ar 24 Mehefin 2010. Bydd yn canolbwyntio'n fanylach ar chwaraeon i'r elît a hefyd yn sefydlu cyfres heriol o dargedau sy'n adlewyrchu'r lefelau cyfredol o botensial a chyflawniad yn y maes chwaraeon yng Nghymru.

Ymrwymiad 213 - Ategir hyn gan **Strategaeth Hyfforddi** newydd Chwaraeon Cymru (13 Medi 2010) sy'n canolbwyntio ar ddarparu mwy o hyfforddwyr a hefyd gwella ansawdd hyfforddwyr.

Ymrwymiad 215 - Hefyd, darparwyd arian i dimau Cymru i gefnogi eu rhan yn y Gemau Olympaidd Arbennig, Cwpan y Byd i'r Digartref ym Milan a Gemau Ysgol y DU. Cymru a gynhaliodd **Gemau Ysgol y DU 2009** ac yr oedd yn bleser gennym gefnogi digwyddiad sy'n ysbrydoli ac yn ennyn ymlyniad pobl ifanc i gyfranogi mewn chwaraeon cystadleuol.

Ymrwymiad 226 - Mae strategaeth brandio addas ac ysgogol wedi cael ei datblygu i Gymru ochr yn ochr â'r cam o gyflwyno gwefan brandio.